
WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

## Cyngor Caerdydd

Cyhoeddwyd: Ionawr 2012
Cyfeirnod y Ddogfen: 673A2011



# Gwybodaeth am Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth ac mae'n cael ei benodi gan Ei Mawrhydi Y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol am waith Swyddfa Archwilio Cymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'i chyrff cyhoeddus noddedig a chysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, awdurdodau'r heddlu, awdurdodau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae archwilwyr penodedig yr Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio'n flynyddol y rhan fwyaf o arian cyhoeddus sy'n cael ei wario yng Nghymru, gan gynnwys y £15 biliwn o gyllid a bleidleisir i Gymru'n flynyddol gan Senedd San Steffan. Caiff bron i £5.5 biliwn o'r cyllid hwn ei drosglwyddo gan Lywodraeth Cymru i lywodraeth leol ar ffurf grantiau cyffredinol a grantiau penodol. Mae llywodraeth leol, yn ei thro, yn codi £2.1 biliwn arall drwy'r dreth gyngor a threthi busnes.

Yn ogystal ag ymgymryd ag archwilio ariannol, rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw edrych ar sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus. Nod Swyddfa Archwilio Cymru yw gwneud i arian cyhoeddus gyfrif, drwy hyrwyddo gwelliant, fel bod pobl yng Nghymru yn elwa o wasanaethau cyhoeddus atebol a reolir yn dda sy'n cynnig y gwerth gorau posibl am arian. Mae hefyd yn ymroddedig i nodi a lledaenu arfer da ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Cafodd Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, gymorth gan Steve Barry, Janet Villars a chydweithwyr o dan oruchwyliaeth Jane Holownia i gynnal yr Asesiad Gwella a llunio'r adroddiad hwn.

# Cynnwys

**Crynodeb a chynigion ar gyfer gwella** **4**

**Adroddiad manwl**

Cyflwyniad 7

Mae arweinyddiaeth wleidyddol y Cyngor ac arweinyddiaeth wedi'i symleiddio ymhlith swyddogion y Cyngor yn ysgogi arbedion effeithlonrwydd drwy arweinyddiaeth ariannol gref, gwell rheolaeth ar bobl ac asedau a thrwy ddefnydd da o dechnoleg 9

Mae gwelliannau'n dod i'r amlwg yn y gwasanaethau gwastraff, priffyrdd, a rheoli cymdogaethau, mae'r Cyngor ar y trywydd iawn i fodloni Safon Ansawdd Tai Cymru ond mae gwendidau mewn rhai agweddau ar wasanaethau cymdeithasol ac addysg yn achosi oedi wrth gyflawni nodau'r Cyngor 13

Mae gwendidau mewn rhai agweddau ar wasanaethau cymdeithasol yn golygu nad yw'r Cyngor yn bodloni'n llawn ei nod i sicrhau bod pobl yng Nghaerdydd yn ddiogel a'u bod yn teimlo'n ddiogel 13

Mae gwendidau mewn rhai agweddau ar addysg yn golygu nad yw'r Cyngor yn bodloni'n llawn ei nod i bobl yng Nghaerdydd gyflawni'u potensial llawn 15

Mae'r Cyngor yn helpu darparu amgylchedd glân, deniadol a chynaliadwy trwy fodloni Safon Ansawdd Tai Cymru, dechrau ar waith i wella cynnal a chadw priffyrdd a thrwy welliannau mewn rheoli gwastraff 17

Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud yn sefydlu partneriaethau cadarn i gefnogi gwella cyflwyno gwasanaethau i gymdogaethau 19

Mae trefniadau da gan y Cyngor i fonitro perfformiad, ac mae'n gwneud cynnydd da yn datblygu'r ffyrdd mae'n gwerthuso effaith yr hyn mae'n ei wneud 22

**Atodiadau**

**Atodiad 1**
Statws yr adroddiad hwn 23

**Atodiad 2**
Gwybodaeth ddefnyddiol am Gaerdydd a Chyngor Caerdydd 24

**Atodiad 3**
Cyfrifon Cyngor Caerdydd a'i ddefnydd o adnoddau 26

**Atodiad 4**
Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Caerdydd 29

# Adroddiad cryno

1 Bob blwyddyn, mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol adrodd ar ba mor dda mae cynghorau Cymru, awdurdodau tân ac achub, a pharciau cenedlaethol yn cynllunio ar gyfer gwella a pha mor dda maent yn cyflwyno'u gwasanaethau. Gan ddefnyddio gwaith yr arolygiaethau perthnasol yng Nghymru, a gwaith archwilio Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Penodedig, mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno darlun o welliant o gymharu â'r llynedd. Mae tair prif ran i'r adroddiad, sy'n ymdrin â sut mae Cyngor Caerdydd (y Cyngor) yn mynd ati i gynllunio, cyflawni a gwerthuso gwelliant.

2 Canfuom fod arweinyddiaeth hwylus gan swyddogion y Cyngor yn ysgogi arbedion effeithlonrwydd drwy arweinyddiaeth ariannol gref, gwell rheolaeth ar bobl ac asedau a thrwy ddefnydd da o dechnoleg.

3 Mae gwelliannau'n dod i'r amlwg yn y gwasanaethau gwastraff, priffyrdd, a rheoli cymdogaethau, mae'r Cyngor ar y trywydd iawn i fodloni Safon Ansawdd Tai Cymru ond mae gwendidau mewn rhai agweddau ar wasanaethau cymdeithasol ac addysg yn achosi oedi wrth gyflawni nodau'r Cyngor. Seiliom y casgliad hwn ar y canlynol:

- Mae gwendidau mewn rhai agweddau ar wasanaethau cymdeithasol yn golygu nad yw'r Cyngor yn bodloni'n llawn ei nod i sicrhau bod pobl yng Nghaerdydd yn ddiogel a'u bod yn teimlo'n ddiogel. Roedd gwerthusiad Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) o'r farn mai cynnydd cyfyngedig oedd y Cyngor wedi'i wneud wrth fynd i'r afael â materion yr oedd wedi'u nodi'r llynedd, ac roedd rhai agweddau ar wasanaethau wedi dirywio.
- Mae gwendidau mewn rhai agweddau ar addysg yn golygu nad yw'r Cyngor yn bodloni'n llawn ei nod i bobl yng Nghaerdydd gyflawni'u potensial llawn, er i arolygiad gan Estyn ym mis Ionawr 2011 farnu fod y gwasanaeth addysg yn 'ddigonol', digon cyffredin yw perfformiad ysgolion ac mae'r gyfradd gwaharddiadau cyfnod penodol ymhlith y gwaethaf yng Nghymru.
- Mae'r Cyngor yn helpu darparu amgylchedd glân, deniadol a chynaliadwy trwy fodloni Safon Ansawdd Tai Cymru, dechrau ar waith i wella cynnal a chadw priffyrdd a thrwy welliannau mewn rheoli gwastraff. Mae'r Cyngor yn un o nifer fach o gynghorau sy'n debygol o fodloni'r targed i wella'i gartrefi i Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn 2012. Mae perfformiad rheoli gwastraff wedi gwella'n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf, yn sgil cyflwyno dulliau casglu newydd.
- Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud yn sefydlu partneriaethau cadarn i gefnogi gwella cyflwyno gwasanaethau i gymdogaethau.

4 Yn olaf, mae'r adroddiad yn amlinellu ein barnau ar asesiad y Cyngor ei hun o'i berfformiad a'i drefniadau. Daethom i'r casgliad fod trefniadau da gan y Cyngor ar waith ar gyfer monitro perfformiad, a gyda'i bartneriaid allweddol, mae'n gwneud cynnydd yn datblygu'r ffyrdd y mae'n mynd ati i werthuso effaith yr hyn mae'n ei wneud.

# Cynigion ar gyfer gwella

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| **Ysgogi gwelliant mewn gwasanaethau drwy:** | |
| C1 | **Ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol**<br>• Mynd i'r afael â'r materion mewn gwasanaethau cymdeithasol a nodwyd gan AGGCC. |
| C2 | **Ar gyfer addysg**<br>• Gweithredu argymhellion Estyn yn deillio o'r arolygiad o'r gwasanaeth addysg. |
| C3 | **Ar gyfer y gwasanaeth priffyrdd**<br>• Sicrhau cymeradwyaeth aelodau i safonau priffyrdd, ac ymgymryd â gwaith i ddatblygu a chyflawni'r safonau hynny.<br>• Nodi cyfrifoldeb am reoli, gweithredu a gwella'r ased priffyrdd ('perchennog yr ased') ar lefel uwch reoli, a chyflwyno ystyriaeth o safonau cyson a chostau cynnal a chadw yn y dyfodol wrth wneud penderfyniadau. |
| C4 | **Ar gyfer y gwasanaeth rheoli gwastraff**<br>• Datblygu mentrau atal gwastraff a chamau i gefnogi strategaeth wastraff y Cyngor.<br>• Gweithio mewn partneriaeth â chymunedau i gefnogi cyflawni'r strategaeth wastraff.<br>• Sefydlu dealltwriaeth glir gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â phrif elfennau strategaeth wastraff tymor hwy ar gyfer Caerdydd am y 10 mlynedd nesaf. |

## Cynigion ar gyfer gwella (parhad)

**C5 Ar gyfer rheoli cymdogaethau**

- Datblygu ymhellach y trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd ar berfformiad i gymdogaethau er mwyn sicrhau bod y dystiolaeth gan y Bwrdd Partneriaeth integredig a'r Bwrdd Rhaglenni i fonitro cyflawni camau ond hefyd i asesu a oes deilliannau gwell wedi'u cyflawni ar gyfer dinasyddion/y cyhoedd:
  - cwblhau a gweithredu Cynlluniau Gweithredu Blynyddol 2011-12;
  - sicrhau bod Cynlluniau Gweithredu Blynyddol ar gyfer 2012-13 yn cael eu llunio a'u bod yn barod ar gyfer dechrau'r flwyddyn ariannol; a
  - chwblhau Adroddiadau Blynyddol 2011-12 ar gyfer pob cymdogaeth.
- Sicrhau bod prosiectau Ailgynllunio Gwasanaethau ar draws y Cyngor yn ystyried y gofynion adnoddau a goblygiadau gweithio gyda'r Model Rheoli Cymdogaeth a fabwysiadwyd gan y Cyngor a Phartneriaid.
- Sicrhau bod rheolwyr sy'n gyfrifol am gyflwyno gwasanaethau yn deall cysyniad rheoli cymdogaeth, gweithio ar y cyd a'r modd y gall eu gwasanaeth ymateb i'r agenda.
- Sicrhau bod staff yn y Cyngor yn gwybod am y Model Rheoli Cymdogaeth a fabwysiadwyd gan y Cyngor a Phartneriaid a'u bod yn deall y rôl maent yn ei chwarae yn rhoi'r model ar waith.

# Adroddiad manwl

## Cyflwyniad

5 Paratowyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru. Ar dudalen 2 cewch esboniad byr o'r hyn mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ei wneud.

6 O dan Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol adrodd bob blwyddyn ar ba mor dda mae Cynghorau Cymru, yr awdurdodau tân ac achub, a'r parciau cenedlaethol yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn cyflwyno'u gwasanaethau. Mae Atodiad 1 yn rhoi mwy o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur. Gyda chymorth gan arolygiaethau Cymru, Estyn (ar gyfer addysg), AGGCC, a Bwrdd yr Iaith Gymraeg, rydym wedi creu darlun o'r hyn mae pob cyngor neu awdurdod yng Nghymru yn ceisio'i gyflawni a sut mae'n mynd ati i wneud hynny. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn amlinellu'r cynnydd mae'r Cyngor wedi'i wneud ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf, gan ddefnyddio hunanasesiad y Cyngor ei hun.

7 Trwy gydol yr adroddiad, amlinellwn yr hyn mae angen i'r Cyngor ei wneud i wella'i wasanaethau. O gofio'r ystod eang o wasanaethau sy'n cael eu darparu a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor, byddai'n anarferol i ni beidio â dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gallu:

- argymell i weinidogion Llywodraeth Cymru eu bod yn ymyrryd mewn rhyw ffordd;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gydag argymhellion manwl;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – os gwneir argymhelliad ffurfiol rhaid i'r Cyngor ymateb i'r argymhelliad hwnnw'n gyhoeddus o fewn 30 diwrnod; a
- gwneud cynigion ar gyfer gwella – os gwnawn gynigion i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo wneud rhywbeth ynglŷn â hwy, a byddwn yn mynd ar drywydd yr hyn sy'n digwydd.

8 Rydym am gael gwybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch, ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn i ni drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu drwy ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

9 Mae'r Cyngor wedi ymgymryd ag ystod eang o weithgarwch mewn perthynas â'r wyth prif ddeilliant a amlinellwyd yn ei Gynllun Corfforaethol (a amlinellir yn Atodiad 4). Nid ydym yn cynnal adolygiad blynyddol cynhwysfawr o holl drefniadau neu wasanaethau'r Cyngor. Seiliwyd y casgliadau yn yr adroddiad hwn ar ein gwybodaeth gronnus a'n gwybodaeth ar y cyd, a chanfyddiadau'r gwaith y rhoddwyd blaenoriaeth iddo eleni.

10 Yn yr adroddiad hwn rhown farn ar effeithiolrwydd trefniadau a gweithgarwch rheoli mewn perthynas â phedwar o'r wyth o ddeilliannau bwriadedig drwy edrych ar ba mor dda yr oedd y Cyngor:

- yn rheoli ei adnoddau corfforaethol drwy asesu: rheolaeth ariannol; defnydd y Cyngor o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu; rheolaeth ar adnoddau dynol, a rheolaeth ar dir ac eiddo;
- yn bodloni ei nod i sicrhau bod pobl yng Nghaerdydd yn ddiogel a'u bod yn teimlo'n ddiogel drwy ystyried yr asesiad gan gydweithwyr o Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC);

- yn bodloni ei nod i bobl yng Nghaerdydd gyflawni'u potensial llawn drwy ystyried yr arolygiad ym mis Ionawr 2011 o wasanaethau addysg i blant a phobl ifanc gan Estyn (Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru);
- yn bodloni ei nod i bobl yng Nghaerdydd gael amgylchedd glân, deniadol a chynaliadwy drwy adolygu'r gwasanaeth rheoli priffyrdd a'r gwasanaethau rheoli gwastraff;
- yn cyflawni deilliannau cadarnhaol i ddinasyddion trwy bartneriaethau cadarn, a chyflawni ei nod i sicrhau cymdeithas deg, gyfiawn a chynhwysol trwy gychwyn adolygiad o reoli cymdogaethau; ac
- yn asesu ac yn adrodd ar ei berfformiad yn erbyn ei amcanion ar gyfer 2010-11.

# Mae arweinyddiaeth wleidyddol y Cyngor ac arweinyddiaeth wedi'i symleiddio ymhlith swyddogion y Cyngor yn ysgogi arbedion effeithlonrwydd drwy arweinyddiaeth ariannol gref, gwell rheolaeth ar bobl ac asedau a thrwy ddefnydd da o dechnoleg

## Mae'r Gweithrediad wedi cynnal ei ffocws ar ysgogi newid, mae'r strwythur uwch reoli wedi'i symleiddio, a'r gwaith o lywodraethu'r rhaglen trawsnewid wedi'i gryfhau, gan sicrhau arbedion ariannol a gwella eglurder cyfrifoldeb ac atebolrwydd

11 Mae'r Gweithrediad wedi cynnal ei ffocws ar drawsnewid, yn darparu arweinyddiaeth strategol, gyda'r Arweinydd a deiliaid portffolio yn chwarae rhannau allweddol mewn ffrydiau rhaglenni penodol a'r Prif Weithredwr yn goruwchwylio ei gyflawniad yn gyffredinol.

12 Ym mis Rhagfyr 2010 dechreuodd y Cyngor wneud newidiadau sylfaenol i'w strwythur uwch reoli gan wneud cynnydd cyflym i weithredu'r newid yn ystod pedwar mis cyntaf 2011. Fe wnaeth y newidiadau leihau nifer yr uwch reolwyr o dri, gan sicrhau arbedion ariannol a amcangyfrifir o £330,000. Cynigiodd ymadawiad Cyfarwyddwr Corfforaethol yn ystod haf 2011 gyfle pellach i adolygu trefniadau ar y lefel uchaf yn y Cyngor, ac arweiniodd at benderfyniad i beidio â phenodi rhywun i'r swydd, gan sicrhau arbedion ariannol pellach yn sgil hynny a chyfrannu at strategaeth cyllideb y Cyngor ar gyfer 2012-13.

13 Mae rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd rheolwyr unigol o fewn y strwythur wedi'u cysoni'n gliriach er mwyn darparu ffocws ar gyflawni'r arbedion effeithlonrwydd angenrheidiol, ynghyd â thrawsnewid gwasanaethau a chyflwyniad. Fe wnaeth yr ailstrwythuro wella cydlynu gweithgareddau cysylltiedig hefyd drwy ddod â thimau sy'n ymwneud â chyflwyno gwasanaethau penodol at ei gilydd, fel rheoli gwastraff, glanhau strydoedd a gweithrediadau priffyrdd a oedd wedi'u rhoi ar waith mewn cyfarwyddiaethau gwahanol yn flaenorol. Er ein bod yn gwneud nifer o gynigion ar gyfer gwella yn yr adroddiad hwn, roedd yn amlwg fod uwch reolwyr yn cydnabod problemau a'u bod yn rhoi cynlluniau dibynadwy ar waith i fynd i'r afael â hwy.

14 Yn ystod 2011 cymerwyd camau pellach sy'n cryfhau rheoli a gweithredu'r portffolio trawsnewid. O gofio cymhlethdod newid, roedd yn hanfodol i'r Cyngor fod â threfniant ar waith a oedd yn sicrhau bod egnïon yn canolbwyntio ar faterion a oedd yn fwyaf perthnasol i gyflawni trawsnewid. Mae saith o raglenni ar waith, ac ynddynt rhoddir blaenoriaeth i brosiectau y rhagwelir y byddant yn cyflawni arbedion effeithlonrwydd ac arbedion, ac yn anelu i gynnal neu wella gwasanaethau. Mae cyfrifoldebau'r Bwrdd Gweithredol, y pwyllgorau craffu a swyddogion yn glir, ac mae uwch swyddogion cyfrifol wedi'u dynodi i reoli rhaglenni unigol ac adrodd bob pythefnos. Mae trefniadau adrodd yn galluogi asesu cynnydd mewn rhaglenni unigol a rheoli'r cydberthnasoedd rhwng rhaglenni.

## Mae'r Cyngor yn rheoli ei gyllid yn dda ac yn dangos arweinyddiaeth ariannol gref ac atebol

15 Mae'r Cyngor yn deall yr heriau ariannol mae'n eu hwynebu, ac mae ganddo strategaeth glir ar gyfer mynd i'r afael â hwy, trwy gyflawni arbedion effeithlonrwydd wrth roi newidiadau ar waith yn y ffordd mae'n gweithio (ei raglen trawsnewid) a chreu arbedion o fewn meysydd gwasanaeth

penodol. Caiff y Prif Weithredwr ei ddal i gyfrif drwy amcanion personol penodol ar gyfer cyflawni arbedion effeithlonrwydd trawsnewid, a mynd i'r afael â phwysau ariannol tymor canolig drwy'r broses pennu cyllideb. Caiff y rhain, a'i amcanion personol eraill, eu datgan ar wefan y Cyngor.

16 Cyflawnodd y Cyngor ei dargedau arbedion ariannol ac arbedion effeithlonrwydd ar gyfer 2010-2011, ac mae wrthi'n paratoi ei gyllideb ar gyfer 2012-2013 ar ôl nodi angen i fynd i'r afael â diffyg a amcangyfrifir mewn cyllid o £19.4 miliwn drwy gynllunio ar gyfer arbedion gwasanaeth o £18 miliwn, ac arbedion effeithlonrwydd o £6.3 miliwn.

17 Mae cynllun ariannol tymor canolig gan y Cyngor, a gall ddangos arweinyddiaeth ariannol gref ac atebol. Mae rolau a chyfrifoldebau'n glir ar lefel aelodau a lefel uwch swyddogion. Mae prosesau cynllunio cyllideb a gwasanaethau yn galluogi'r Cyngor i bennu blaenoriaethau a gwneud dewisiadau o fewn ei fodd. Dylai'r gwaith sy'n mynd rhagddo i ddatblygu trefniadau mesur perfformiad alluogi cryfhau'r broses benderfynu wrth i ddeilliannau ddod yn gliriach.

18 Yn ddiweddar rhoddodd yr Archwilydd Penodedig farn ddiamod ar Ddatganiad Cyfrifon y Cyngor ar gyfer 2010-11. Ceir mwy o fanylion yn Atodiad 3.

## Mae'r Cyngor wedi cryfhau ei drefniadau rheoli pobl er mwyn cefnogi cyflawni ei agenda effeithlonrwydd

19 Mae'r Cyngor yn disgwyl i reolwyr gynnal arfarniadau blynyddol o bob un o'i staff. Y nod yw sicrhau bod gan y staff y sgiliau sydd eu hangen arnynt i wneud eu gwaith a bod eu perfformiad ei hun yn cael ei adolygu yn erbyn yr hyn a ddisgwylir iddynt ei gyflawni. Yn y gorffennol mae wedi cymryd llawer iawn o amser i uwch reolwyr y Cyngor sicrhau bod yr holl arfarniadau'n cael eu cynnal yn brydlon a bod camau priodol yn cael eu cymryd. Yn ystod 2011, fe wnaeth y gwasanaeth Adnoddau Dynol gefnogi gweithredu fframwaith newydd i reoli perfformiad unigol gan ddefnyddio system gyfrifiadur a fydd yn galluogi'r Cyngor i fonitro cynnydd o ran cydymffurfio â'r gweithdrefnau'n haws nag y mae wedi gallu yn y gorffennol.

20 Mae cynllunio gweithlu'n bwysig am ei fod yn ymwneud â sicrhau bod y Cyngor yn defnyddio'i bobl yn effeithiol, ac yn golygu ei fod yn gallu rhagweld y sgiliau a'r niferoedd o bobl y bydd eu hangen arno yn y dyfodol. Ar adeg pan fo ymateb i bwysau ariannol yn golygu'n aml fod gostyngiadau yn niferoedd y staff, mae cynllunio'r gweithlu yn chwarae rhan allweddol yn y broses benderfynu ynglŷn â'r sgiliau sydd eu hangen i'r Cyngor eu cadw yn hytrach na'u colli. Gwneir rhywfaint o gynllunio'r gweithlu ac ailgynllunio strwythurau staffio ar lefel gwasanaethau, ac mae dull corfforaethol o gynllunio'r gweithlu wrthi'n cael ei ddatblygu. Mae gweithgareddau eraill yn ymwneud â chynllunio'r gweithlu wrthi'n cael eu rhoi ar waith fel rhan o'r broses benderfynu i gefnogi'r agenda arbedion.

**Arddangosyn 1: Academi Cyngor Caerdydd: Paratoi pobl ar gyfer newid ac i gyflawni gwelliant**

Mae'r Cyngor wedi cydnabod yr angen i sicrhau bod ei staff yn deall y sail resymegol a'r ymagwedd at newid, a'u bod yn cael y sgiliau a'r wybodaeth i gyflawni newid a gwelliannau. 'Academi Cyngor Caerdydd' a ddatblygwyd drwy'r Rhaglen Trawsnewid Pobl ac Arweinyddiaeth, yw'r cyfrwng sydd gan y Cyngor i fodloni'r angen hwnnw.

Mae'r ymagwedd yn sicrhau cynllunio strategol effeithiol yn ogystal â chyflwyno dysgu a datblygu yng nghyd-destun trawsnewid, gwella gwasanaethau a gwneud y defnydd gorau o adnoddau sydd ar gael.

Mae nifer o ffrydiau gweithgarwch gan yr Academi, rhai ohonynt yn arwain at gymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol, rhai eraill wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion y Cyngor ac unigolion wrth i'r trawsnewid fynd yn ei flaen.

Mae cryfderau allweddol yr ymagwedd yn cynnwys:

- 'Camau Cyntaf' sef cwrs ar gyfer pob aelod o staff ac wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth ag undebau llafur, sy'n cwmpasu testunau fel rheoli newid, cynllunio ymlaen, cyfleoedd dysgu a sgiliau hanfodol.
- Gwella Gwasanaethau – darparu sgiliau ymarferwyr drwy Ganolfan Ymchwil Menter Ddarbodus Ysgol Fusnes Caerdydd (daeth 10 aelod o staff yn ymarferwyr achrededig yn 2011, a bydd 10 aelod arall o'r staff yn cael eu hachredu yn 2012). Mae'r sesiynau lefel sylfaen yn rhoi dealltwriaeth i gyfranogwyr o welliant parhaus a defnyddio offer 'darbodus'. Mynychwyd y sesiynau lefel sylfaen gan dros 190 o aelodau staff, a llwyddodd 130 i gyflawni cymhwyster yn 2011.
- Rhaglen Arweinyddiaeth Caerdydd – ar gyfer staff sy'n gyfrifol am gyflawni nodau'r Cyngor a Nodau Gwasanaethau, sy'n arwain at gymhwyster Lefel 5 y Sefydliad Rheolaeth Siartredig. Y nod yw datblygu hunanymwybyddiaeth ac annog rheolwyr i archwilio effeithiolrwydd eu cyfraniad at amcanion gwasanaeth ac amcanion sefydliadol.
- 'Sgiliau bywyd hanfodol' – eu bwriad yw helpu rheolwyr adnabod arwyddion yn eu staff eu hunain i'w helpu deall sut i nodi anghenion ar gyfer cymorth llythrennedd, rhifedd ac iaith, a ble allant gael y cymorth sydd ar gael.
- Rheoli Prosiectau – er mwyn sicrhau bod pob aelod o staff yn deall egwyddorion y rhaglen trawsnewid a chynyddu gallu'r staff i reoli prosiectau o fewn y rhaglen ar lefel sylfaen a lefel ymarferwyr.
- Mae ffrydiau eraill sydd wrthi'n cael eu datblygu'n cynnwys, er enghraifft, Gwasanaethau Cwsmeriaid.

Mae'r ymagwedd gynhwysfawr a gyflwynir drwy'r Academi yn mynd i'r afael â chymhlethdod diwallu anghenion dysgu a datblygu sy'n wynebu'r Cyngor ar adeg pan fo newid sylweddol yn digwydd, mae'n rhoi gweledededd i weithgarwch dysgu a datblygu yn gyson â'r Rhaglen Trawsnewid, ac yn rhoi llwybr dilyniant clir i bob aelod o staff.

21 Dros y pedair blynedd diwethaf mae'r aelod arweinwyr ac uwch swyddogion wedi bod yn gweithio'n agos ag undebau llafur i sefydlu cynigion ar gyfer rhoi trefniadau cyflog teg ar waith (gelwir yn gyffredinol yn 'statws sengl'). Mae'r dull o weithio ar y cyd wedi bod yn llwyddiannus, ac mae'r Cyngor wedi sicrhau pleidlais 'ie' gan y staff i gynigion, ac mae bellach yn bwrw ymlaen â rhoi'r cynigion ar waith.

## Mae'r Cyngor wrthi'n rhoi trefniadau newydd ar waith gyda'r nod o wneud defnydd gwell o dechnoleg i gefnogi gwelliant

22 Mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer datblygu, defnyddio a chefnogi technoleg yn debygol o gynorthwyo gwelliant parhaus. Mae Pennaeth Gwasanaethau newydd wedi datblygu Strategaeth TGCh 2012-14 y Cyngor i gefnogi cyflawni'r agenda trawsnewid. Mae trefniadau newydd ar gyfer rheoli a chyflwyno technoleg, sy'n gysylltiedig â safonau proffesiynol ac arfer da, wrthi'n cael eu rhoi ar waith ac mae trefniadau diogelwch yn cael eu gwella.

23 Mae'r Cyngor yn newid ei ymagwedd at ariannu technoleg am y flwyddyn ariannol 2012-13. Mabwysiadwyd ein cynnig i gynnwys cynlluniau i adfywio ac adnewyddu'r seilwaith TGCh yn ei gynlluniau ariannol tymor canolig, ac mae £500,000 o gyllid ychwanegol wedi'i ddyrannu i fynd i'r afael â meysydd risg uniongyrchol yn y seilwaith TGCh yn ystod 2012-13. O fis Ebrill 2012, ystyrir technoleg pen desg fel nwyddau corfforaethol, a chostau wedi'u canoli yn lle'u datganoli i feysydd gwasanaeth, gan symud at fodel ariannu mwy effeithiol ac effeithlon o ran cost.

## Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da yn cryfhau ei ddull o reoli asedau

24 Yn gyntaf aethom ati i werthuso trefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli ei asedau tir ac eiddo yn 2009, a gwelsom fod gan y Cyngor lawer i'w wneud cyn y byddai'n gallu gwneud defnydd effeithiol o'r adnoddau hyn.

25 Rydym wedi bod yn olrhain datblygiadau dros y ddwy flynedd diwethaf, ac mae'n amlwg fod cynnydd sylweddol wedi'i wneud yn sefydlu sylfeini cadarn ar gyfer rheoli asedau'n effeithiol. Mae prosiect y Cyngor, 'Ein Gofod', er enghraifft, yn pennu'r amcan clir i wneud defnydd mwy effeithlon o ystafelloedd swyddfa ac adeiladau, a chefnogir rhoi hwn ar waith gan drefniadau gwell ar gyfer asesu gofynion eiddo gwasanaethau.

## Mae gwelliannau'n dod i'r amlwg yn y gwasanaethau gwastraff, priffyrdd, a rheoli cymdogaethau, mae'r Cyngor ar y trywydd iawn i fodloni Safon Ansawdd Tai Cymru ond mae gwendidau mewn rhai agweddau ar wasanaethau cymdeithasol ac addysg yn achosi oedi wrth gyflawni nodau'r Cyngor

### Mae gwendidau mewn rhai agweddau ar wasanaethau cymdeithasol yn golygu nad yw'r Cyngor yn bodloni'n llawn ei nod i sicrhau bod pobl yng Nghaerdydd yn ddiogel a'u bod yn teimlo'n ddiogel

**Cynnydd cyfyngedig mae'r Cyngor wedi'i wneud o ran gwella gwasanaethau cymdeithasol, a gwelwyd dirywiad mewn rhai meysydd o'r ddarpariaeth gwasanaethau**

26 Rôl yr AGGCC yw cynnal asesiadau a llunio barnau proffesiynol am ofal cymdeithasol, y blynyddoedd cynnar a gwasanaethau cymdeithasol, ac felly annog gwelliant gan y darparwyr gwasanaeth. Cyhoeddwyd *Adolygiad a Gwerthusiad o Berfformiad Blynyddol 2010-11* yr AGGCC ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghaerdydd ym mis Hydref 2011, a thalodd sylw penodol i'r meysydd datblygu a nodwyd yn adroddiad cyfatebol y llynedd[1]. At ei gilydd, daeth yr adroddiad i'r casgliad mai cynnydd cyfyngedig fu mewn llawer o'r meysydd hyn, a bod perfformiad wedi dirywio mewn rhai meysydd eraill. Aeth y Cyngor ati i weithredu'n gyflym i gryfhau'r trefniadau rheoli sy'n ofynnol i sicrhau bod materion a nodwyd yn adroddiad mis Hydref yn cael sylw, gan gyflwyno cymorth rheoli dros dro a'i drefniadau rheoli rhaglen profedig i ysgogi cynnydd.

27 Adroddodd AGGCC fod proffil cyffredinol da gan y gwasanaethau cymdeithasol o fewn yr awdurdod. Mae cysylltiadau effeithiol gan uwch reolwyr â swyddogaethau corfforaethol ac aelodau, ac mae'r Cyngor wedi penodi aelodau yn arweinwyr portffolio ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau plant ac oedolion.

28 Mae'r prif negeseuon a nodwyd gennym ynglŷn â gwasanaethau oedolion wedi'u crynhoi isod:

- Mae nifer y bobl sy'n wynebu oedi o ran rhyddhau o'r ysbyty am resymau cymdeithasol yn parhau'n uchel, ac mae wedi cynyddu mymryn bach yn y blynyddoedd diwethaf er y bu gwelliannau ers 2007. Mae'r Cyngor yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd Lleol i geisio sicrhau gwella.
- Yn y rhan fwyaf o feysydd gwasanaethau oedolion mae gwell mynediad i ofalwyr i wasanaethau.
- Mae cyflymder asesu pobl â nam ar y synhwyrau wedi gwella.
- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer lleoliadau nyrsio i bobl â dementia yn parhau'n heriol, ac mae angen i'r Cyngor wella mynediad i wasanaethau ar gyfer pobl hŷn â dementia. Yn ddiweddar mae'r Cyngor wedi sicrhau lleoedd gwely ychwanegol, ac mae'n rhagweld y bydd rhagor o leoedd yn dod ar gael dros yr 14 mis nesaf.
- Adroddodd y Cyngor am gynnydd o ran cyrraedd pobl o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, gan gynnwys darparu meddygfeydd allgymorth, a phecyn cyfathrebu er mwyn cynorthwyo cymunedau i gyfathrebu â'r Cyngor, a sgriptiau safonol i'r staff er mwyn sicrhau cyfathrebu effeithiol a chyson. Ond mae angen o hyd iddo wella mynediad i wasanaethau.
- Mae gwasanaethau canolradd a theleofal yn darparu deilliannau cadarnhaol i bobl, mae arolygon bodlonrwydd defnyddwyr

1 Gellir gweld adroddiadau AGGCC yn www.cymru.gov.uk/cssiwsubsite.

- gwasanaeth y Cyngor yn dangos bod y mwyafrif o bobl yn fodlon â'r gwasanaethau a dderbyniwyd, ond disgrifiodd rhai defnyddwyr gofal cartref eu bod yn teimlo wedi'u sefydliadu yn eu cartrefi eu hunain.
- Ymddengys bod gwasanaethau i oedolion sy'n agored i niwed yn ymateb yn dda i bobl sy'n agored i niwed, ond mae gormod o gyfeiriadau amhriodol yn cael eu gwneud.

29 Gan gydnabod yr angen i wella'r broses asesu a rheoli gofal, a rhoi ffocws ar ddeilliannau, mae'r Cyngor wedi sefydlu prosiect i yrru hyn yn ei flaen.

30 Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod perfformiad mewn llawer o agweddau ar wasanaethau plant yn gymysg, a bod rhai rhannau o'r gwasanaeth yn wael. Rhoddir crynodeb isod o'r negeseuon allweddol a nodwyd gennym yn ymwneud â gwasanaethau plant:

- Fel sy'n wir yn y rhan fwyaf o gynghorau, nid yw'r gwaith o gynllunio gwasanaethau yn canolbwyntio digon ar ddeilliannau, ac mae angen datblygu ymhellach y ffordd y mae'r cynllunio yn cynnwys ymgysylltiad a chyfranogiad defnyddwyr. Mae'r Cyngor yn datblygu strategaeth gomisiynu sy'n rhoi ffocws ar ddeilliannau.
- Mae perfformiad mewn llawer o agweddau yn gymysg ac yn wael, er enghraifft, er bod y broses benderfynu ar lefelau cynyddol o gyfeiriadau yn parhau'n brydlon, mae angen gweithredu i ddeall a mynd i'r afael â'r lefelau cyfeiriadau nad ydynt yn mynd yn eu blaenau neu sy'n ailgyfeiriadau.
- Pan fydd plentyn neu unigolyn ifanc yn derbyn gwasanaethau, mae'r lefel perfformiad wedi'i chynnal yn gyffredinol, er y bydd y Cyngor eisiau gweld gwelliant parhaus, a dylai ystyried a yw cyflymder a natur gwelliant yn foddhaol.
- Mae gwasanaethau llinell flaen i blant yn parhau i wynebu problemau o ran recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol a rheolwyr, felly mae'r Cyngor wedi darparu cyllid ychwanegol ar gyfer wyth o swyddi gweithwyr cymdeithasol ac wedi recriwtio rheolwr newydd.
- Cydnabyddir effaith y cynnydd parhaol o ran cyfeiriadau at Wasanaethau Plant yng Nghaerdydd (19 y cant yn 2010-11) rhywbeth sy'n cynyddu llwythiau gwaith ar draws cylch y gwasanaeth.

**Nid yw trefniadau comisiynu wedi'u datblygu'n ddigonol mewn gwasanaethau cymdeithasol**

31 Rhwng Ebrill a Mehefin 2011 cynhaliodd AGGCC adolygiad o'r broses ar gyfer comisiynu gwasanaethau cymdeithasol yng Nghaerdydd. Daeth AGGCC i'r casgliad fod angen datblygu comisiynu a moderneiddio yng Nghaerdydd ymhellach, a nododd ystod o faterion y rhoddir crynodeb ohonynt isod:

- Nid oes unrhyw strategaethau neu gynlluniau clir a chytûn ar gyfer comisiynu. Mae'r mentrau a hyrwyddir yn cael eu llywio i raddau helaeth gan ffactorau allanol. Nid yw rhai asiantaethau partner yn sicr ynglŷn â chyfeiriad neu gyflymder comisiynu yn y dyfodol, ac ychydig o brofiad diweddar sydd gan grwpiau cynrychioliadol o bobl sy'n defnyddio gwasanaethau o ddatblygu gwasanaethau'n gadarnhaol dan arweiniad comisiynwyr.

- Mae gwaith i ddeall natur a maint anghenion lleol yn parhau i ddatblygu. Mae asiantaethau partner yn cyfrannu at ddadansoddiad o anghenion y boblogaeth, ond mae bylchau o hyd mewn gwybodaeth leol am ofal cymdeithasol, ac mae cryn ddibyniaeth ar ddata cenedlaethol. Defnyddir gwybodaeth gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, ond tystiolaeth gyfyngedig sydd o'r wybodaeth hon yn cael ei chasglu'n systematig yn y rhan fwyaf o ardaloedd.
- Mae gwasanaethau cymdeithasol yn ymdrechu i gadw pobl yn eu cartrefi eu hunain. Fodd bynnag, mae yna dystiolaeth fod gwasanaethau'n gallu bod yn anhyblyg gan gynnig fawr o ddewis.
- Mae cymysgedd o Gytundebau Fframwaith a chontractau yn ôl y galw yn eu lle ar gyfer nifer sylweddol o ddarparwyr. Fodd bynnag, mae gwendidau yn y gwaith o fonitro'r deilliannau o arferion comisiynu.

## Mae gwendidau mewn rhai agweddau ar addysg yn golygu nad yw'r Cyngor yn bodloni'n llawn ei nod i bobl yng Nghaerdydd gyflawni'u potensial llawn

**Digon cyffredin yw perfformiad ysgolion ac mae'r gyfradd gwaharddiadau cyfnod penodol ymhlith y gwaethaf yng Nghymru**

32 Pan gaiff amrediad o wybodaeth gyd-destunol ei hystyried, digon cyffredin ar y cyfan oedd perfformiad disgyblion yn ysgolion Caerdydd yn 2011 yng nghyfnodau allweddol 1, 2 a 3. Yng nghyfnod allweddol 4, roedd perfformiad ychydig islaw'r cyfartaledd. Nid oes digon o ysgolion yn y 25 y cant uchaf o ran y rhan fwyaf o'r mesurau, ac mae gormod o ysgolion islaw'r cyfartaledd. Mae perfformiad yng nghyfnodau allweddol 3 a 4, ar sail hawl i gael prydau ysgol am ddim, wedi bodloni neu ragori ar bob un o feincnodau Llywodraeth Cymru yn y pedair blynedd hyd at 2010. Nid yw gwybodaeth feincnodi ar gyfer data 2011 ar gael eto.

33 Mae presenoldeb mewn ysgolion uwchradd islaw'r cyfartaledd pan ystyrir ystod o ffactorau cyd-destunol, ac mae gormod o ysgolion yn y ddau chwarter isaf, o gymharu ag ysgolion tebyg. At ei gilydd, roedd presenoldeb mewn ysgolion cynradd yn gyfartalog yn 2010. Fe wnaeth nifer y gwaharddiadau parhaol o ysgolion wella yn 2010. Fodd bynnag, mae'r gyfradd gwaharddiadau cyfnod penodol ymhlith y gwaethaf yng Nghymru, ac mae nifer y diwrnodau y bydd disgyblion yn eu colli o'r ysgol oherwydd gwaharddiadau wedi cynyddu.

**Barnodd arolygiad ym mis Ionawr 2011 fod y gwasanaethau addysg yn ddigonol, a nododd feysydd allweddol i'w gwella y mae'r Cyngor wrthi'n mynd i'r afael â hwy**

34 Ym mis Ionawr 2011, cyhoeddwyd adroddiad gan Estyn ar ansawdd gwasanaethau addysg yr awdurdod lleol ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghaerdydd. Gellir gweld yr adroddiad llawn ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk). Barnodd yr arolygwyr fod gwasanaethau addysg y Cyngor ar gyfer plant a phobl ifanc yn ddigonol am fod y Cyngor:

- wedi bodloni neu ragori ar bob un o ddisgwyliadau meincnod Llywodraeth Cymru ar gyfer y pedair blynedd diwethaf;
- wedi sicrhau trefniadau effeithiol i gefnogi a herio ysgolion; ac

- wedi gwneud cynnydd da o ran datblygu a rhesymoli'r ddarpariaeth lleoedd ysgol.

35 Fodd bynnag, roedd cynnydd yn rhy araf mewn meysydd fel presenoldeb, gwaharddiadau, deilliannau cyfnod allweddol 4, ac ar gyfer y rheiny nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, ac nid oedd yr arweinyddiaeth strategol ar gyfer gweithio ar y cyd rhwng y Cyngor a'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc yn ddigon effeithiol.

36 Daeth Estyn i'r casgliad hefyd fod y rhagolygon gwella yn 'ddigonol' oherwydd:

- roedd aelodau etholedig wedi dangos arweinyddiaeth gref a chefnogaeth gyson i'r gwasanaethau addysg;
- darparodd y prif swyddog addysg a'r penaethiaid gwasanaeth arweinyddiaeth dda i'r gwasanaeth ysgolion, ac roedd cynlluniau strategol yn adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn dda; ac
- roedd cysylltiadau clir rhwng y rhan fwyaf o gynlluniau ar draws y Cyngor.

37 Fodd bynnag, nid oedd hunanarfarnu a gwelliant yn ddigon cyson, trylwyr na chadarn, ac ni ddangosodd y prosesau hunanarfarnu sut yr oedd gwaith y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc wedi cyfrannu at wella deilliannau i bob dysgwr.

38 Roedd adroddiad arolygu Estyn yn cynnwys argymhellion penodol ar gyfer gwella'r gwasanaeth. Ar ôl derbyn adroddiad Estyn aeth y Cyngor ati i sefydlu Bwrdd gweithredu dan gadeiryddiaeth y Prif Weithredwr, ac mae'n cyfarfod yn fisol i fonitro cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu sy'n mynd i'r afael ag argymhellion Estyn. Mae'r Bwrdd yn cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Nododd gyfarfod mwyaf diweddar y Bwrdd fod mwyafrif y camau sydd wedi'u cynllunio wedi'u cyflawni a'u bod yn unol â'r targed. Bydd Estyn yn parhau i fonitro cynnydd.

## Argymhellion arolygu Estyn

- Gwella arweinyddiaeth strategol y cydweithio rhwng y Cyngor a'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc.
- Gwella effeithiolrwydd y cynllunio partneriaeth ar gyfer deilliannau mewn meysydd blaenoriaeth; gwella'r craffu ar weithio mewn partneriaeth.
- Parhau i godi safonau yng nghyfnod allweddol 4, gwella presenoldeb, lleihau gwaharddiadau a lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.
- Gwella prosesau rheoli perfformiad i sicrhau dull cyson wrth gyflawni amcanion.
- Gwella'r wybodaeth, y cyngor a'r cymorth ar gyfer holl rieni'r dysgwyr sydd angen asesiad statudol o anghenion addysgol arbennig disgyblion.

Ffynhonnell: *Adroddiad ar ansawdd gwasanaethau addysg awdurdodau lleol i blant a phobl ifanc yng Nghyngor Caerdydd. Estyn Ionawr 2011.* Hawlfraint y Goron 2011.

## Mae'r Cyngor yn helpu darparu amgylchedd glân, deniadol a chynaliadwy trwy fodloni Safon Ansawdd Tai Cymru, dechrau ar waith i wella cynnal a chadw priffyrdd a thrwy welliannau mewn rheoli gwastraff

### Mae'r Cyngor ymhlith yr ychydig rai sy'n rhagweld cyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru yn ei gartrefi yn ystod 2012

39 Ym mis Gorffennaf 2001, fe wnaeth y Cynulliad Cenedlaethol gymeradwyo'r strategaeth dai genedlaethol gyntaf i Gymru - *Cartrefi Gwell i Bobl Cymru.* Fe wnaeth y strategaeth amlinellu gweledigaeth Llywodraeth Cymru y dylai pawb yng Nghymru allu byw mewn cartrefi o ansawdd da. Er mwyn helpu cyflawni'r weledigaeth hon, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Safon Ansawdd Tai Cymru yn 2002. Roedd y safon yn pennu disgwyliadau ar gyfer cyflwr yr adeiledd, darparu ystafelloedd a cheginau modern mewn cartrefi sy'n defnyddio ynni'n effeithiol, ynghyd â disgwyliadau ynglŷn â'r amgylchedd o amgylch y cartrefi hynny. Roedd disgwyl i holl landlordiaid tai cymdeithasol yng Nghymru fodloni'r safon erbyn 2012.

40 Yn gynnar yn y broses, aeth y Cyngor ati i sefydlu rhaglen gyda'r bwriad o fodloni Safon Ansawdd Tai Cymru lle bynnag y bo hynny'n ymarferol erbyn 2012 i'w 13,688 o gartrefi. Yn ystod blynyddoedd cynnar y rhaglen, adolygom y trefniadau, gan ystyried eu bod yn ddibynadwy. Mae aelodau gweithredol, aelodau craffu a'r Panel Archwilio wedi chwarae rhan weithredol yn monitro cynnydd dros y blynyddoedd, ac mae uwch swyddogion wedi bod â rhan allweddol yn rheoli gofynion ariannol a chyflawni gwelliannau. Ym mis Ionawr 2012 cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol *Cynnydd o Ran Cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru* gan nodi fod Caerdydd, o'r 11 o gynghorau sydd â stoc tai o hyd, yn un o dri chyngor yn unig a oedd yn rhagweld bodloni'r targed erbyn 2012.

### Mae'r gwaith o ddatblygu cynnal a chadw priffyrdd wedi bod yn araf, ond mae'r Cyngor yn dechrau gwella'r gwasanaeth

41 Ym mis Mawrth 2008 yr adroddom gyntaf ar gynnal a chadw priffyrdd. Canfuom fod y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd wedi ysgogi ystyried cynnal a chadw priffyrdd mewn ffordd fwy strategol, ond roedd angen mynd i'r afael ag amrywiaeth o rwystrau cyn bod y gwasanaeth yn debygol o wella. Ymhlith y rhain yr oedd angen am reoli'r gwasanaeth yn fwy effeithiol, sef angen a gododd o ganlyniad i ddiffyg sefydlogrwydd rheolaethol a newidiadau mewn cyfrifoldebau dros gyfnod.

42 Mae'r cynnydd o ran mynd i'r afael â'r materion a nodwyd gennym yn 2008 wedi bod yn araf yn rhannol oherwydd bod y swyddog a oedd yn gyfrifol am ddatblygu'r Cynllun Rheoli Asedau wedi'i secondio i brosiect corfforaethol am ddwy flynedd, ac ni phenodwyd unrhyw un yn ei le yn ystod y cyfnod hwn; oherwydd hyn cyfyngwyd ar y gwaith o ddatblygu a gweithredu'r Cynllun a'r polisïau sy'n hanfodol i'w gefnogi.

43 Cafwyd ailstrwythuro a newidiadau ar lefel uwch reolwyr yn ystod 2011, ac mae'r Prif Swyddog newydd wedi dechrau mynd i'r afael â materion allweddol. Cafodd y Cynllun Rheoli Asedau ei adolygu i gynnwys rhagamcaniadau o ddirywio yn y dyfodol yn seiliedig ar nifer o senarios ariannu gwahanol. Bydd hyn yn cynorthwyo â dangos i aelodau ac eraill beth yw goblygiadau gostyngiadau mewn cyllid, ac yn gweithredu fel fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau am gynnal a chadw priffyrdd yn y dyfodol. Nid yw cynghorwyr wedi mabwysiadau'n ffurfiol y safonau a ddisgwylir ar gyfer cyflwr priffyrdd. Mae llawlyfr cynnal a chadw drafft sy'n cynnwys safonau a gwybodaeth arall am bolisi wedi'i ddiweddaru'n barod i aelodau ei gymeradwyo.

44 Byddwn yn parhau i roi ffocws ar ddatblygu'r maes gwasanaeth hwn, ac yn adrodd ar y deilliannau a gyflawnwyd yn ein hadroddiad blynyddol nesaf.

### Prif gynigion ar gyfer gwella – Cynnal a Chadw Priffyrdd

- Sicrhau cymeradwyaeth aelodau i safonau priffyrdd, ac ymgymryd â gwaith i ddatblygu a chyflawni'r safonau hynny.
- Nodi cyfrifoldeb am reoli, gweithredu a gwella'r ased priffyrdd ('perchennog yr ased') ar lefel uwch reoli, a chyflwyno ystyriaeth o safonau cyson a chostau cynnal a chadw yn y dyfodol i'r broses benderfynu.

**Mae'r gwaith o drefnu'r gwasanaeth gwastraff, yn ogystal â pherfformiad ailgylchu a chompostio, wedi gwella, ond nid yw'r trefniadau atal gwastraff wedi'u datblygu gystal**

45 Cafodd y gwasanaeth gwastraff ei ailstrwythuro yn 2011 ac mae Prif Swyddog newydd wedi dechrau gwella'r ffordd o gyflwyno gwasanaethau. Mae dull mwy effeithlon o gyflwyno gwasanaethau i'w weld, er enghraifft, o'r newidiadau sydd wedi'u gwneud i'r ffordd mae'r gwasanaeth yn cael ei drefnu, cyflwyno patrymau sift mwy effeithlon a chynnydd mewn incwm gwasanaethau masnach.

46 Mae gan Gaerdydd un o'r economïau sy'n tyfu gyflymaf yn Ewrop, ac mae hynny'n creu heriau sylweddol o ran cynaliadwyedd. Mae gwastraff Caerdydd yn arwyddocaol i Gymru; mae'n cyfrif am ryw 25 y cant o'r gwastraff trefol a gesglir yn genedlaethol. Os yw Caerdydd yn methu targedau, yna mae'n debygol y bydd Cymru'n methu hefyd. Mae rheoli gwastraff yn risg gorfforaethol fawr i'r Cyngor, ac mae sicrhau rheoli gwastraff yn gynaliadwy yn gam allweddol sy'n cyfrannu at gyflawni deilliant blaenoriaeth y Cyngor, sef 'i bobl yng Nghaerdydd gael amgylchedd glân, deniadol a chynaliadwy'.

47 Ym mis Ionawr 2011, fe wnaeth y Gweithrediad gymeradwyo strategaeth rheoli gwastraff ar gyfer y cyfnod 2011 i 2016 sy'n cynnwys camau i sicrhau atebion tymor hir ar gyfer gwastraff trefol y ddinas. Mae strategaeth newydd y Cyngor ar gyfer rheol gwastraff yn drylwyr ac yn integreiddio rheoli gwastraff â gwasanaethau eraill. Erbyn hyn mae gwasanaethau gwastraff yn cael eu

rheoli'n fwy effeithiol, mae perfformiad presennol yn gwella ond gyda pherfformiad canolig, mae lle i wella mwy. Mae'r cynnydd yn y gyfradd ailddefnyddio/ailgylchu/compostio flynyddol o 26.8 y cant yn 2007-08 i 42 y cant yn 2010-11 yn dangos y gwelliant sydd wedi'i gyflawni o ganlyniad uniongyrchol i gyflwyno trefniadau casglu gwastraff newydd, gan gynnwys casglu gwastraff cyffredinol a gwastraff gardd bob pythefnos, a chasglu gwastraff bwyd yn wythnosol.

48 Mae'r Cyngor yn gwneud digon o gynnydd i fodloni targedau gwastraff presennol a thargedau'r dyfodol, a chreu dinas lanach. Mae perfformiad yn gwella yn sgil cyflwyno systemau gwell, ond nid yw'r strategaeth yn mynd yn ddigon pell i hyrwyddo atal gwastraff, ac efallai na fydd yn gyson â'r strategaeth genedlaethol oherwydd y dull cydgymysg a ddewiswyd ar gyfer casglu gwastraffau y gellir eu hailgylchu wrth ymyl y ffordd, gwastraff sydd wedyn yn cael ei ddidoli'n fecanyddol yng nghyfleuster adfer deunyddiau'r Cyngor.

49 Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth resymol o ddeilliannau bwriadedig tymor hwy ei strategaeth wastraff, ond mae'r ffocws presennol ar gyfer adolygu perfformiad yn cael ei arwain gan dargedau ar gyfer ailgylchu a chompostio. Mae'r strategaeth yn dechrau'r trawsnewidiad i gynyddu gweithgareddau atal gwastraff, ond mae'n brin o ran camau y gellir eu cyflawni ar gyfer y nod hwn. Nid yw'r Cyngor ychwaith wedi llawn sylweddoli buddion potensial cyflawni'i strategaeth wastraff mewn partneriaeth.

50 Mae'r broses o gaffael capasiti trin gwastraff gweddilliol trwy Prosiect Gwyrdd ar y trywydd iawn ac yn unol â'r amserlen, ond mae proses gaffael y Cyngor o ran capasiti trin gwastraff bwyd ar gyfnod cynharach o lawer na chaffaeliadau eraill sy'n cynnwys y cynghorau eraill yng Nghymru.

### Cynigion allweddol ar gyfer gwelliant – rheoli gwastraff

- Datblygu mentrau atal gwastraff a chamau i gefnogi strategaeth wastraff y Cyngor. Gweithio mewn partneriaeth â chymunedau i gefnogi cyflawni'r strategaeth wastraff.
- Sefydlu dealltwriaeth glir gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â phrif elfennau strategaeth wastraff tymor hwy ar gyfer Caerdydd am y 10 mlynedd nesaf.

## Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud yn sefydlu partneriaethau cadarn i gefnogi gwella cyflwyno gwasanaethau i gymdogaethau

**Mae'r Strategaeth Partneriaeth Integredig a'r cynlluniau ar gyfer cyflwyno drwy waith cymdogaeth yn cynnig sylfeini cadarn ar gyfer gwella gwasanaethau ar lefel leol**

51 Yn 2011 cytunom gyda'r Cyngor y byddem yn cynnal adolygiad dau gam o'r dull o reoli cymdogaethau a fyddai, yn ystod hydref 2011, yn mynd ati'n gyntaf i archwilio pa un a oedd y trefniadau a oedd ar waith yn debygol o arwain at welliant, a byddai ail gam yn 2012 yn archwilio pa un a oedd deilliannau gwell yn

cael eu cyflawni i ddinasyddion. Er mwyn llywio'r adroddiad hwn fe wnaethom asesu sut oedd y Cyngor a'i bartneriaid yn trefnu'u hunain; pa un a oedd ganddynt flaenoriaethau cytûn a sut oedd y blaenoriaethau hynny'n cael eu nodi; ac a oedd gwybodaeth a threfniadau adrodd yn cael eu rhoi ar waith a fyddai'n arwain at ddealltwriaeth o'r deilliant sy'n cael ei gyflawni i ddinasyddion.

52 Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud dros y ddwy flynedd diwethaf o ran cytuno ar rannu blaenoriaethau a sicrhau bod ffocws gweithgarwch yn mynd i'r afael ag anghenion allweddol a'r materion sydd o bwys ar lefel leol. Yn 2009, dechreuodd y Cyngor weithio gyda phartneriaid statudol a gwirfoddol allweddol, fel yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân ac Achub, y Bwrdd Iechyd a Gweithredu Gwirfoddol Caerdydd i ddatblygu strategaeth integredig unigol i fodloni cyfrifoldebau statudol partneriaid unigol a darparu strwythur ar gyfer cyflawni'r amcanion ar y cyd a amlinellir yn fanwl yn Atodiad 4. Yn ystod 2010, datblygodd y partneriaid y ffyrdd yr oeddent yn bwriadu'u defnyddio i werthuso effaith yr hyn roeddent yn ei wneud, aethant ati i gynnal asesiad o anghenion strategol, ac o fis Rhagfyr 2010 i fis Mawrth 2011, cynhaliwyd ymgynghoriad manwl ganddynt i ganfod beth oedd yn bwysig i ddinasyddion a busnesau. Arweiniodd hyn at gyhoeddi *Beth sy'n Bwysig 2010:2020,* sef y strategaeth 10 mlynedd sy'n darparu'r ffocws ar gyfer cyflawni gweithgarwch y bartneriaeth.

53 Mae gan y Cyngor a'i bartneriaid dimau integredig ar lefel leol. Mae'r ddinas wedi'u rhannu'n chwe ardal rheoli cymdogaeth, ac mae timau sy'n cynnwys staff o asiantaethau partner yn gweithio gyda'i gilydd yn y cymdogaethau hyn gyda'r nod o rannu gwybodaeth leol er mwyn mynd i'r afael â phroblemau penodol yn y gymdogaeth. Mae'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod yr asesiad o anghenion strategol wedi'i throsglwyddo i'r lefel leol ac mae'n cael ei defnyddio gan y chwe thîm i ddatblygu cynlluniau gweithredu ar gyfer eu cymdogaeth.

54 Sefydlwyd Bwrdd Partneriaeth Integredig sy'n cynnwys uwch reolwyr o sefydliadau partner, a chyfarfu am y tro cyntaf ym mis Hydref 2011; bydd yn mynd ati i hyrwyddo gweithredu'r strategaeth *Beth sy'n Bwysig*. Bydd Timau Rheoli Cymdogaeth yn adrodd yn rheolaidd i'r Bwrdd Partneriaeth Integredig, ac mae Panel Craffu sy'n cynnwys cynghorwyr Caerdydd a chynrychiolwyr o sefydliadau partner yn cael ei sefydlu.

55 Un elfen allweddol o'r gwaith a wnaed yn ystod 2011 oedd datblygu'r mesurau sydd i'w defnyddio i asesu a yw'r trefniadau a roddwyd ar waith yn gweithio mewn gwirionedd. Ar ôl cytuno ar eu blaenoriaethau allweddol, mae'r partneriaid wedi cytuno beth maent yn bwriadu ei wneud, ac, ar gyfer pob un o'r blaenoriaethau, amlinellwyd y mesurau y byddant yn eu defnyddio, gan ddefnyddio gwybodaeth berthnasol o bob un o'r partneriaid, felly, er enghraifft, er mwyn bodloni'r flaenoriaeth i leihau anghydraddoldebau iechyd ar draws y ddinas, mae'r partneriaid yn bwriadu targedu'r adnoddau sy'n cael eu defnyddio, ac yn anelu

i sicrhau gostyngiad yng nghanran y babanod â phwysau geni isel fel mesur o'r hyn sy'n cael ei gyflawni.

56 Mae'r sylfeini ar gyfer newid wedi'u sefydlu erbyn hyn, ac mae'r Bwrdd Partneriaeth Integredig yn symud at y cam nesaf i sicrhau bod bwriadau'n cael eu cyflawni a bod y deilliannau dymunol yn cael eu sicrhau. Mae cynlluniau ar waith i gefnogi'r trawsnewid, ac yn ystod 2012 byddwn yn asesu'r deilliannau a gyflawnwyd ac yn adrodd ar gynnydd y flwyddyn nesaf.

**Fe wnaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg ganmol darpariaeth gwasanaethau gan y Cyngor, ond nododd yr angen i ddatblygu rhai agweddau ar wasanaethau**

57 Fe wnaeth y Bwrdd ganmol y Cyngor am y system newydd i ofyn am gyfieithiad arlein sy'n galluogi cwsmeriaid mewnol i anfon dogfennau. Fe wnaeth y Bwrdd hefyd ganmol y ffaith fod cyfieithu bellach yn rhad ac am ddim i adrannau'r Cyngor, gan felly ddileu rhwystr i gynyddu dwyieithrwydd. Canfu gwaith arolygu'r Bwrdd fod y Cyngor wedi cydymffurfio'n llawn â'i Gynllun Iaith Gymraeg ar bob achlysur bron yn y ddarpariaeth ar ei wefan, mewn hysbysiadau swyddogol a dogfennaeth etholiadol ar gyfer y cyhoedd. Fodd bynnag, derbyniodd y Cyngor nifer o gwynion o natur debyg yn ystod y flwyddyn, yn ymwneud yn bennaf â diffyg siaradwyr Cymraeg, gohebiaeth ac arwyddion uniaith Saesneg. Bydd angen i'r Cyngor fynd i'r afael a'r materion a godwyd er mwyn atal hyn rhag digwydd eto yn y dyfodol.

**Cynigion allweddol ar gyfer gwelliant – rheoli cymdogaethau**

- Datblygu ymhellach y trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd ar berfformiad i gymdogaethau er mwyn sicrhau bod y dystiolaeth gan y Bwrdd Partneriaeth Integredig a'r Bwrdd Rhaglenni i fonitro cyflawni camau ond hefyd i asesu a oes deilliannau gwell wedi'u cyflawni ar gyfer dinasyddion/y cyhoedd:
  - cwblhau a gweithredu Cynlluniau Gweithredu Blynyddol 2011-12;
  - sicrhau bod Cynlluniau Gweithredu Blynyddol ar gyfer 2012-13 yn cael eu llunio a'u bod yn barod ar gyfer dechrau'r flwyddyn ariannol; a
  - chwblhau Adroddiadau Blynyddol 2011-12 ar gyfer pob cymdogaeth.
- Sicrhau bod prosiectau Ailgynllunio Gwasanaethau ar draws y Cyngor yn ystyried y gofynion adnoddau a goblygiadau gweithio gyda'r Model Rheoli Cymdogaeth a fabwysiadwyd gan y Cyngor a Phartneriaid.
- Sicrhau bod rheolwyr sy'n gyfrifol am gyflwyno gwasanaethau yn deall cysyniad rheoli cymdogaeth, gweithio ar y cyd a'r modd y gall eu gwasanaeth ymateb i'r agenda.
- Sicrhau bod staff yn y Cyngor yn gwybod am y Model Rheoli Cymdogaeth a fabwysiadwyd gan y Cyngor a Phartneriaid a'u bod yn deall y rôl maent yn ei chwarae yn rhoi'r model ar waith.

## Mae trefniadau da gan y Cyngor i fonitro perfformiad, ac mae'n gwneud cynnydd da yn datblygu'r ffyrdd mae'n gwerthuso effaith yr hyn mae'n ei wneud

58 Cyflawnodd y Cyngor ei ddyletswydd i gyhoeddi ei asesiad o'i berfformiad yn 2010-11 drwy gyhoeddi ei *Gynllun Gwella 2010/11* ar ei wefan cyn diwedd mis Hydref 2011. Yn y blynyddoedd diwethaf mae'r Cyngor wedi gwella strwythur ei asesiad ac mae'r ddogfen yn gwneud cysylltiadau cliriach rhwng yr hyn a ddywedodd y Cyngor fyddai'n ei wneud a'r hyn ddigwyddodd. Fel yr asesiadau a gynhyrchir gan fwyafrif cynghorau Cymru, mae'r ddogfen yn tueddu rhoi datganiad o weithgarwch yr ymgymerwyd ag ef, yn hytrach na'n darparu gwerthusiad o effaith y gweithgarwch hwnnw. Y rheswm pennaf am hyn yw bod y Cyngor wrthi'n hwyluso'i drefniadau mesur perfformiad ac adrodd am berfformiad er mwyn gwella'i allu i nodi canlyniadau ei weithgarwch.

59 Dechreuwyd ar newidiadau i'r adroddiadau perfformiad chwarterol i aelodau yn ystod 2010, a rhoddwyd mwy o ffocws i amlygu materion i'w trafod. Yn ystod 2011, defnyddiodd y Cyngor gymorth ymgynghori i adolygu trefniadau perfformiad presennol er mwyn:

- nodi gwelliannau posibl sydd eu hangen;
- dechrau unrhyw broses newid; a
- meithrin meddwl gwahanol ynglŷn â'r math o wybodaeth y dylid adrodd amdani er mwyn galluogi uwch swyddogion ac aelodau i werthuso'r effaith sy'n cael ei chyflawni.

60 Arweiniodd adborth gan aelodau Gweithredol ac aelodau'r Pwyllgor Adolygu Polisi a Chraffu ar Berfformiad at ddarparu gwybodaeth o ddiddordeb penodol i aelodau, fel absenoldeb salwch, er mwyn cynorthwyo ag asesu gan y Weithrediaeth a'r swyddogaeth graffu. Mae'r arddull adrodd newydd yn welliant ar yr arfer blaenorol o adrodd yn erbyn amrediad penodedig o ddangosyddion perfformiad - mae'r Cyngor yn symud i'r cam hwyluso nesaf i gynnwys gwybodaeth sy'n galluogi'r Cyngor i nodi pa mor dda mae wedi bodloni'i amcanion allweddol, gan gynnwys deilliannau i ddefnyddwyr gwasanaeth, ar ddiwedd bob blwyddyn.

# Atodiadau

## Atodiad 1
## Statws yr adroddiad hwn

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol ymgymryd ag Asesiad Gwella blynyddol, ac i gyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cynnwys cynghorau lleol, parciau cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub.

Mae'r adroddiad hwn wedi'i lunio gan yr Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 y Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni dyletswyddau o dan adran 19 i gyhoeddi adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal Asesiad Gwella o dan adran 18 a datgan a ydyw, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, o'r farn fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio gwelliant o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer [eu] swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub.

Yr Asesiad Gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Caiff yr Asesiad Gwella ei lywio gan asesiad blaengar o ba mor debygol yw awdurdod o gydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i weld a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llywio barn ynglŷn â sut lwyddodd yr awdurdod i wella. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi crynodeb o gasgliadau'r Archwilydd Cyffredinol am hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad.

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), a bydd yn cyflwyno adroddiad amdanynt i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol, a gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi adroddiadau archwilio ac asesu yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol cyhoeddedig hwn (o dan adran 24). Bydd hwn hefyd yn crynhoi unrhyw adroddiadau arolygiadau arbennig.

Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Fe all yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2
# Gwybodaeth ddefnyddiol am Gaerdydd a Chyngor Caerdydd

## Y Cyngor

Mae Cyngor Caerdydd yn gwario oddeutu £518 miliwn y flwyddyn (2010-11). Mae hyn yn gyfwerth â rhyw £1,541 fesul preswylydd. Yn yr un flwyddyn, fe wnaeth y Cyngor wario oddeutu £136 miliwn ar eitemau cyfalaf hefyd. Y dreth gyngor gyfartalog ar gyfer band D yn 2010-11 ar gyfer Cyngor Caerdydd oedd £905.65 y flwyddyn. Mae hyn wedi cynyddu 1.94 y cant i £923.24 y flwyddyn ar gyfer 2011-12.

Mae'r Cyngor yn cynnwys 75 o aelodau etholedig sy'n cynrychioli'r gymuned ac sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a defnyddio adnoddau. Mae'r Cyngor yn cynnwys aelodau o'r grwpiau gwleidyddol canlynol:

- 34 o Ddemocratiaid Rhyddfrydol
- 16 o Geidwadwyr
- 14 o'r Blaid Lafur
- 6 o Blaid Cymru
- 3 Annibynnol
- 1 Annibynnol Y Waun
- 1 Annibynnol Llanisien

Mae gan y Cyngor Weithrediaeth o naw o gynghorwyr sy'n gwneud penderfyniadau ar faterion strategol a gweithredol.

**Y Weithrediaeth**

| | |
|---|---|
| Yr Arweinydd Rodney Berman | Corfforaethol |
| Y Dirprwy Arweinydd Neil McEvoy | Trafnidiaeth a Datblygu Economaidd |
| Y Dirprwy Arweinydd Judith Woodman | Cymunedau, Tai a Chyfiawnder Cymdeithasol |
| Y Cynghorydd Freda Salway | Addysg a Dysgu Gydol Oes |
| Y Cynghorydd Margaret Jones | Yr Amgylchedd |
| Y Cynghorydd Mark Stephens | Cyllid a Chyflwyno Gwasanaethau |
| Y Cynghorydd Kirsty Davies | Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles |
| Y Cynghorydd Nigel Howells | Chwaraeon, Hamdden a Diwylliant |
| Y Cynghorydd Lisa Ford | Priffyrdd |

**Uwch Dîm Rheoli**

| | |
|---|---|
| Prif Weithredwr | Jon House |
| Prif Swyddog Gweithredol | Yn wag |
| Prif Swyddog Corfforaethol Gwasanaethau Corfforaethol | Christine Salter |
| Prif Swyddog Corfforaethol Gwasanaethau a Rennir | Philip Lenz |
| Prif Swyddog Corfforaethol Cymunedau | Sarah McGill |

## Gwybodaeth arall

**Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol**

| | |
|---|---|
| Canol Caerdydd | Jenny Rathbone |
| Gogledd Caerdydd | Julie Morgan |
| Gorllewin Caerdydd | Mark Drakeford |
| De Caerdydd a Phenarth | Vaughan Gething |
| Canol De Cymru | Eluned Parrot, Leanne Wood,<br>David Melding, Andrew R T Davies |

**Aelodau Seneddol**

| | |
|---|---|
| Canol Caerdydd | Jenny Willott |
| Gogledd Caerdydd | Jonathan Evans |
| Gorllewin Caerdydd | Kevin Brennan |
| De Caerdydd a Phenarth | Y Gwir Anrhydeddus Alun Michael |

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i wefan y Cyngor ei hun yn www.cardiff.gov.uk neu cysylltwch â'r Cyngor:

| | |
|---|---|
| Ffôn | 029 2087 2087 (Saesneg) neu 029 2087 2088 (Cymraeg) |
| E-bost | C2C@caerdydd.gov.uk |
| Post | Cyngor Caerdydd, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW |

# Atodiad 3
# Cyfrifon Cyngor Caerdydd a'i ddefnydd o adnoddau

## Llythyr yr archwilydd annibynnol ac adroddiad i Aelodau Cyngor Caerdydd

Y Cynghorydd Rodney Berman
Arweinydd
Cyngor Caerdydd
Neuadd y Sir
Glanfa'r Iwerydd
CAERDYDD
CF10 4UW

**Ein cyf** AJB150/JMcC/am
**Dyddiad** 22 Tachwedd 2011

Annwyl Rodney

**Llythyr Archwilio Blynyddol at Aelodau Cyngor Caerdydd**

Fel y byddwch yn gwybod, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol i bob awdurdod lleol erbyn diwedd mis Ionawr 2012, a bydd rhai o'r materion yr adroddwyd amdanynt yn draddodiadol yn Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwnnw. Felly, rwyf wedi cymryd y cyfle i grynhoi'r negeseuon allweddol sy'n codi o'm cyfrifoldebau statudol yn y llythyr byr hwn, sef y Llythyr Archwilio Blynyddol. Bwriadwyd i'r llythyr fod yn ddogfen annibynnol ond fe'i cyflwynir hefyd i'r Cyngor ac i'r cyhoedd fel rhan o'r Cynllun Gwella Blynyddol, ac felly mae'n cyflawni fy nghyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

**Cydymffurfiodd Cyngor Caerdydd â'i gyfrifoldebau o ran perfformiad ariannol a defnyddio adnoddau, ond mae yna faterion i mi adrodd amdanynt yn fy Memorandwm Datganiadau Ariannol**

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu trefniadau priodol a'u hadolygu'n barhaus er mwyn sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o'r cyfrifon.

Ar 29 Medi 2011, rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion ariannol craidd a grŵp y Cyngor. Rhoddais farn archwilio ddiamod hefyd mewn perthynas â datganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg. Cynhwysir f'adroddiad yn y Datganiad o Gyfrifon.

O 2010-11 mae'n ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru lunio'u cyfrifon ar sail Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS). Yn sgil cyflwyno'r safonau newydd hyn gosodwyd gofynion ychwanegol sylweddol ar staff cyllid y Cyngor. Er gwaetha'r pwysau ychwanegol hyn, paratowyd y cyfrifon erbyn y terfyn amser statudol, ac roeddent o ansawdd da.

Adroddwyd am faterion yn codi o'r archwiliad o'r cyfrifon i aelodau yn f'adroddiad o'r Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol, a bydd manylion pellach yn cael eu hadrodd i swyddogion yn ein memorandwm Datganiadau Ariannol, maes o law.

Mae fy adolygiad o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi'i seilio ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon yn ogystal â dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Tra bydd prif ganfyddiadau'r gwaith olaf hwn yn cael eu nodi yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol, yn ein llythyr ar 21 Gorffennaf 2011, daethom â'r materion canlynol i sylw Prif Weithredwr y Cyngor:

- Mae arweinyddiaeth y Cyngor yn parhau i hyrwyddo newid, ac mae wrthi'n mynd i'r afael â materion a nodwyd yn flaenorol. Dylai blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod sydd i ddod gynnwys dangos yn glir y buddion sy'n deillio o'r rhaglen drawsnewid, yn enwedig yng nghyd-destun gwelliannau sy'n cael eu cyflawni i ddinasyddion.
- Mae'r Cyngor mewn lle da i fynd i'r afael â'i heriau ariannol. Mae cynllun ariannol tymor canolig gan y Cyngor a gall ddangos arweinyddiaeth ariannol gref ac atebol. Mae rolau a chyfrifoldebau'n glir ar lefel aelodau a lefel uwch swyddogion. Mae prosesau cynllunio cyllideb a gwasanaethau yn galluogi'r Cyngor i bennu blaenoriaethau a gwneud dewisiadau o fewn ei fodd. Dylai'r gwaith sydd wedi'i gynllunio i ddatblygu trefniadau mesur perfformiad alluogi cryfhau'r broses benderfynu wrth i ddeilliannau gweithredu ddod yn gliriach.
- Mae cynnydd amlwg yn cael ei wneud wrth ddatblygu trefniadau rheoli asedau corfforaethol, er bod angen i'r cyngor gynnwys gofynion eiddo yn y cynlluniau gwasanaethau a sefydlu cerrig milltir clir er mwyn galluogi gwerthuso.

Ym mis Medi 2010 derbyniais ddatgeliad o dan y Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd. Mae fy ymchwiliad i'r materion hyn yn parhau o hyd. Er fy mod yn fodlon nad yw'r materion hyn yn effeithio ar fy marn ar y Datganiad o Gyfrifon ar gyfer 2010-11, gan fod y gwaith yn parhau i fynd rhagddo, nid wyf yn gallu rhoi tystysgrif gwblhau. Adlewyrchwyd hyn yn fy Adroddiad Archwilwyr.

Disgwylir i'r ffi ar gyfer ymgymryd ag archwiliad 2010-11 o'r datganiadau ariannol fod yn unol â hynny a nodwyd yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad Blynyddol. Fodd bynnag, bydd ffioedd ychwanegol yn cael eu codi mewn perthynas â'r gwaith sy'n ofynnol i gwblhau ein hymchwiliad i faterion a gyfeiriwyd atom o dan y Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd (y mae paragraff 7 yn cyfeirio atynt). Caiff y ffi ar gyfer gwaith a wnaed o dan y Mesur Llywodraeth Leol ei hysbysu ar wahân.

Yn gywir

Anthony Barrett

Archwilydd Penodedig

22 Tachwedd 2011

Mae gan etholwyr lleol a phobl eraill hawl i edrych ar gyfrifon y Cyngor. Pan fydd y Cyngor wedi cwblhau ei gyfrifon am y flwyddyn ariannol flaenorol, o gwmpas mis Mehefin neu fis Gorffennaf fel arfer, mae'n rhaid iddo hysbysebu eu bod ar gael i bobl edrych arnynt. Gallwch gael copïau o'r cyfrifon gan y Cyngor; gallwch hefyd archwilio pob llyfr, gweithred, contract, bil, taleb a derbynneb sy'n ymwneud â hwy am 20 diwrnod gwaith ar ôl trefnu eu bod ar gael. Gallwch ofyn cwestiynau i'r archwilydd am y cyfrifon am y flwyddyn mae'n eu harchwilio. Er enghraifft, gallwch yn syml iawn ddweud wrth yr archwilydd os credwch fod rhywbeth yn anghywir â'r cyfrifon neu am wastraff ac aneffeithlonrwydd yn y modd y mae'r Cyngor yn rhedeg ei wasanaethau. I gael rhagor o wybodaeth gweler taflen Swyddfa Archwilio Cymru, *Cyfrifon y Cyngor: eich hawliau,* ar ein gwefan yn www.wao.gov.uk neu drwy ysgrifennnu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

# Atodiad 4
# Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Caerdydd

## Amcanion gwella Cyngor Caerdydd

Cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion gwella yn ei Gynllun Corfforaethol, a gellir gweld y rhain ar wefan y Cyngor yn www.caerdydd.gov.uk. Dyma'r amcanion:

| Amcanion gwella Cyngor Caerdydd |
|---|
| **1 Mae pobl Caerdydd yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel**<br>• Diogelu dinasyddion sy'n agored i niwed.<br>• Lleihau troseddu, ofn troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. |
| **2 Mae gan Gaerdydd economi sy'n ffyniannus a llewyrchus**<br>• Cryfhau rhwydweithiau'r sector cyhoeddus-preifat i ddatblygu a chefnogi busnesau lleol llwyddiannus.<br>• Dod yn lleoliad busnes a chyrchfan i ymwelwyr o safon fyd-eang. |
| **3 Mae pobl Caerdydd yn cyflawni eu potensial llawn**<br>• Gwella ansawdd cynllunio a gweithio mewn partneriaeth ar lefelau strategol a gweithredol er mwyn gwella deilliannau dysgwyr a hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol. |
| **4 Mae Caerdydd yn lle gwych i fyw, gweithio a chwarae ynddo**<br>• Cyflwyno dewisiadau teithio cynaliadwy.<br>• Datblygu Caerdydd fel canolfan ryngwladol ar gyfer y celfyddydau, diwylliant, adloniant, treftadaeth, chwaraeon, hamdden a digwyddiadau. |
| **5 Mae gan bobl Caerdydd amgylchedd glân, deniadol a chynaliadwy**<br>• Cyflawni mesurau rheoli gwastraff effeithiol ac effeithlon.<br>• Creu dinas lanach.<br>• Creu dinas fwy cynaliadwy a gwyrddach.<br>• Adfywio Cymdogaethau Lleol. |
| **6 Mae pobl Caerdydd yn iach**<br>• Hyrwyddo a chefnogi Ffyrdd Iach a Gweithgar o Fyw.<br>• Sicrhau Safonau Amgylcheddol Uchel.<br>• Sicrhau bod pobl sy'n agored i niwed yn cael mynediad at wasanaethau er mwyn lleihau anghydraddoldeb iechyd. |

| Amcanion gwella Cyngor Caerdydd (parhad) |
|---|
| **7 Mae cymdeithas Caerdydd yn un deg, cyfiawn a chynhwysol**<br>• Sefydlu Model Rheoli Cymdogaeth Caerdydd.<br>• Ymateb yn effeithiol i'r ffordd y mae dinasyddion am gael mynediad at wasanaethau.<br>• Hyrwyddo cyfle cyfartal a chymryd rhan yn y broses gwneud penderfyniadau. |
| **8 Mae'r Cyngor yn cyflawni deilliannau gwell i'r ddinas a'i dinasyddion drwy bartneriaethau cryf**<br>• Rhoi'r dull Trawsnewidiad Strategol ar waith er mwyn cyflawni arloesedd ac effeithlonrwydd wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.<br>• Datblygu gwasanaethau cyhoeddus di-dor ar gyfer dinasyddion a chymunedau yng nghyd-destun atebolrwydd democrataidd cadarn. |

## Hunanasesiad Cyngor Caerdydd o berfformiad

Gellir gweld hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad yn ei *Gynllun Gwella 2010/11* sydd ar ei wefan yn www.caerdydd.gov.uk trwy deipio 'cynllun gwella' yn y cyfleuster chwilio.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk